

CARDIAU POST NAIN – ELLEN MARY HUGHES – 1904-1916

Cefndir

Er bod cardiau post, neu lythyr-gardiau, Nain wedi bod yn y teulu ers iddi fod yn ferch ifanc, dim ond yn 2015 y dechreuais i edrych arnynt yn fwy manwl, a'u cofnodi. Yn wreiddiol roedd y cardiau yn cael eu cadw mewn albwm trwchus gyda chlwr du.

Ceir bron 300 o gardiau i gyd, ac ysgrifennwyd y rhan fwyaf ohonynt at fy Nain rhwng 1904 a 1916. Mae'n amlwg o'u cynnwys bod ffrindiau a chymdogion Nain yn gwybod ei bod hi'n casglu cardiau post, yn arbennig rhai doniol, ac yn gyrru cardiau iddi at ei chasgliad.

Mae'r cyntaf yn y casgliad gyda'r dyddiad Awst 1af 1904, o Bwllheli:

'annyul EM, dyma fi yn curu Pcard i ch fel dar y du ofyn ydwif ?ChG' [1]

Ellen Mary Hughes

Ganed Nain yn Nhan-y-gaer, Llanwnda, yn yr hen Sir Gaernarfon, ar Hydref 4ydd, 1887. Cafodd ei magu yng Ngharreg Wen, Moeltryfan, ardal y chwareli llechi, a chwarelwyr oedd ei thad a'i thaid. Ei henw llawn oedd Ellen Mary Hughes, ond adnabyddid hi fel 'Nell Garregwen' neu 'Nellie'.

Ar ôl cyfnod byr yn gweithio fel gwriadwraig mewn siop yng Nghaernarfon, aeth Nain i weini i Lerpwl yn 1906, a threulio'r rhan fwyaf o'r deng mlynedd ar hugain nesaf yn byw yn y ddinas. Ar ddiwedd 1913 cyfarfu â saer coed o'r enw Henry Richard Rowlands a phriodwyd y ddau yng Nghapel Parkfield, Penbedw, ym mis Ebrill 1916. Parhaodd y ddau i fyw yn Lerpwl tan y 1930au, cyn dychwelyd i Gymru, i bentref genedigol Taid, sef Tyn-y-gongl, ger Benllech, yn Sir Fon.

Cawsant bedwar o blant – a'r ieuengaf oedd Awena Wyn Rowlands (1927-2001), fy Mam.

Bu farw Nain yn Rhagfyr 1986, yn 99 mlwydd oed.

Derbyniwyd y cardiau post yn ystod y cyfnod pan oedd Nain rhwng 16 a 28 oed - amser cyffrous i ferch ifanc o Foeltryfan fod yn byw ac yn gweithio yn Lerpwl, ac mae'r cardiau yn cofnodi ei bywyd cymdeithasol, gweithiol a charwriaethol.

Gelwir y cyfnod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn 'Oes Aur' y 'Picture Post Card', gan eu bod mor boblogaidd. Roedd y post yn cael ei ddsbarthu sawl gwaith y dydd yn y dinasoedd, felly roeddent yn ffordd cyflym a rhad o lythyru â phobl, o drefnu oed, neu o yrru cyfarchion.

Mae'r traethawd hwn yn dilyn hanes Nain, ei theulu, ei ffrindiau, a'i chymdeithas, trwy ddefnyddio'r cardiau post sydd yn y casgliad. Rwyf wedi trefnu'r cardiau yn ôl gwahanol themâu, ond rwyf hefyd wedi ceisio cadw at drefn amser cyhyd ag y bo modd. Rwyf hefyd yn cyfeirio at y lluniau ar flaen y cardiau post os byddant yn berthnasol i'r cynnwys, ac mae darn ar y diwedd yn trafod y cardiau eu hunain.

Er bod y rhan helaeth o'r cardiau wedi eu danfon gan Gymry Cymraeg, maent wedi cael eu hysgrifennu yn Saesneg a Chymraeg – yn aml yn yr un cerdyn. Rwyf wedi cadw at sillafu'r testun gwreiddiol gan fod hyn yn rhoi mewnwelediad i'r iaith a ddefnyddid, o leiaf ar gardiau post, yn y cyfnod hwn.

Rwyf yn cyfeirio at rif y cerdyn yn yr albwm mewn cromfachau [].

Amserlen

Mae'r cardiau wedi eu cyfeirio i wahanol leoedd, lle'r oedd Nain yn byw neu'n gweithio. Yn fras, dyma'r dilyniant:

1904-1905: Afr Aur/Golden Goat, Caernarfon; 9 New Street, Caernarfon; Garreg Wen, Moeltryfan

1906-1907: Garreg Wen, Moeltryfan; 95 Garmoyle Road, Wavertree, Bootle, Lerpwl

1907: 54 Benedick Street, Bootle

1907-1910: 177 Upper Parliament Street, Lerpwl

1911-1912: Garreg Wen, Moeltryfan

1913-1915: 88 Camden Street, Birkenhead

1916: 52 Beatrice Street, Bootle

Fy nealltwriaeth i yw bod Nain yn gweini yn Upper Parliament Street, a'i bod wedi byw am gyfnod yn y tŷ, cyn symud i Camden Street, Penbedw. Mae nifer fawr o'r cardiau wedi eu cyfeirio i Garreg Wen, yn arbennig yn ystod cyfnod yr Haf a'r Nadolig, sy'n awgrymu bod Nain yn teithio adref yn aml, un ai ar y stemar o Borthaethwy, neu ar y trê.

Mae nifer o themâu yng nghynnwys y cardiau:

- Cymdeithas Moeltryfan: cofnodir digwyddiadau cymdeithasol y pentref a'r cylch.
- Lerpwl: mae'r cardiau yn arddangos y cysylltiad agos rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl, a'r mynd-a-dod rhwng cymdogion Nain a'r ddinas.
- Gweini: ceir mewnwelediad i fywyd morwyn, neu gyffelyb, yn y cyfnod.
- Carwriaeth: mae nifer o'r cardiau yn rhai carwriaethol, lle mae dynion ifanc yn holi am Nain neu'n ceisio trefnu oed gyda hi. Mae nifer ohonynt yn ddiennw ac yn bryfoclyd.
- Teulu: ceir nifer o gardiau oddi wrth aelodau o'r teulu, neu rai'n cyfeirio at ddigwyddiadau gartref.

Yr elfen amlycaf sy'n rhedeg drwy'r cardiau yw'r hwyl a'r sbort yr oedd Nain yn ei gael yn ystod y cyfnod. Mae'n debyg bod Nain yn boblogaidd iawn ymysg ei ffrindiau, yn ddynion a merched, yn Gymry a Saeson, a'i chymdogion. Roedd hi'n ddireidus, yn hoffi gwneud hwyl ar ben pobl, ac yn cael ei phryfocio gan ei ffrindiau a'i pherthnasau. Parhaodd yr ysbryd o hwyl gan Nain trwy gydol ei hoes hir.

Cymdeithas

Mae cymdeithas fywiog yn amlwg yng nghynnwys y cardiau, a nifer yn son am newyddion y pentref a'r digwyddiadau dyddiol:

'Craigfryn, Carneddi Rd, Bethesda, Bangor. Dear Nellie, Bet Hughes's mother is been buried this afternoon. G John has begun to preach and also Herbert Dennis. My brother TJ wish to be remembered to you he preaches at our chapel tomorrow. Will be glad of an answer. Love from all. Yours ever friend Maggie' [18]

'I shall be very glad to see you in town here its very different here now than it was when you was here I got lot of news to tell you hoping to here from you soon. (my address) MA Edwards, 31 Hafod Terrace, Carnarvon Hoping to see you soon remember to write for me to know where to see you and when cofia di yru yn fuan' [21]

Un o'r rhai a ysgrifennai fwyaf cyson at Nain oedd Gruffydd John Jones, pregethwr ifanc o 7 Well Street, Llanllechid. Mae'r llythyru yn dechrau yn Awst 1904, gyda llun o Fethesda:

'The road is generally called Lon Newydd – the road to Bethesda from our village...' [5]

'Accept my many thanks for the beautiful PC. I dare you were startled at the news of our ministers death. Give my best remembrance to Miss Edwards and say that I am expecting daily a PC from her. Herbert Jones was to give his first sermon on the Sunday last...' [15]

'Received your PC. I have been through most of the chapels of the neighbourhood by now and ?G and HJ was before the quarterly meetings at Bangor last time. Gwelwch ein bod yn dod ymlaen yn gyflym yn awr a phwy na wyr na fydd un o honom yn eich ardal chwi cyn bo hir. Gobeithio y cawn y fraint.' [20]

Gyda llun o 'County School, Bethesda': 'Dyma i chwi ddarlun o'm hysgol. Gwelwch fy narlun yn y ffrynt gyda mark bychan uwch ei ben ef Grif John' [25]

Yn 1906:

'Cefais air oddiwrth Mr Owen yn ceisio genyf ddod yna. Felly byddaf yna y Sabbath Medi 23ain. Hyderaf fod pawb yn iach a chwithau yn eu plith. Cofion goreu atoch chwi ar teulu oll. Cofiwch fi at eich cefnder fu yna...' [47]

Ar ddiwedd y flwyddyn, a Nain wedi symud i Lerpwl, mae GJJ yn ysgrifennu eto:

'Synais eich bod yn Lerpwl. Gobeithiaf eich bod yn hoffi y lle. Drwg gennyf am fy mod wedi bod mor hir. Exam Ddydd Iau nesaf. Afonaf Gerdyn nadolig eto...' [55]

Yn 1908:

'... I was very sorry that I did not see you last Sunday when you were over here. Preaching caused my absence from chapel. Why did you not call to see me on Monday for I was by the afternoon in the house? Kindly remember me to your family all...' [99]

'Diolch am eich llythyr caredig: maddeuwch am fy mod wedi bod mor hir yn eich hateb. Pysur iawn ydwy – Dyna'r rheswm. Da oedd gennyf glywed eich bod yn hoffi yna. Pe buasech yn Manchester buaswn yn eich gweled. Byddaf yno yn pregethu ar y 13 o Ragfyr. Gobeithiaf na fyddwch chwi mor hir a mi yn ateb...' [111]

Un arall sy'n ysgrifennu'n gyson yw Nell/Nellie Jones, y rhai cynnar o Lerpwl a'r gweddill o Rostryfan. Mae'n bosib mai Ellen Jones a'u hysgrifennodd, chwaer mam Nain:

'rwyf yn dod allan yn fuan y foru. Tyrd at capel Marsh Lane erbyn y don't o capel y pnawn Nel ydwyf Nellie Jones' [80]

'... mi cefais dy P Card yn safe dydd Iau, ac mi wyf yn anfon hwn yn ol iti am dy fod eisio picture P Card. Mi cefais llythyr oddiwrth mam heddyw. Mi ddof yna erbyn hanner awr wedi pump nos Sul nesaf...' [90]

'... mi fuom yn dy Ellis Jones ond ni chaiff Jacki dod meddau hi yr haf yma. Mi cefais llythyr gin mam heddyw yn deud fod Maggie yn caru rhyw Sais o rhywle ac mae Robin yn ni rhegu hi yn ofnadwy. Mi cei fwy pan y gwelaf di... A dyna fel y deudodd Misses Jones wrth ai rhyw hen clown o beth ydi hi wir' [91]

Roedd Nell hefyd yn ysgrifennu dros bobl eraill:

'... Dyma fi yn anfon drost ?Hatie mi oeddwn yn cofyn iddi beth oedd arni hi eisio deud wrth Nel yr un peth a ?meddai mae hi yn ?siarad fel cleps melin o hyd wyf Hetu Jones' [92]

'... mi ydwyf anfon hun i ti gan gobeithio dy fod yn iach. Mae rhwch wedi mynd drwy shop mam a mae wedi poeni fod yr rhwch wedi mynd. Y mae pawb wedi digio. Y mae Bob Jones a Nell Jones yn byw yn iawn ac yr wyf finau hefyd. Ydwyf yr un ydwyf Willie Jones' [109]

'... mi wyf ni anfon hwn drost Richard. Mae yn cofio atat yn arw iawn. Ydwyf Richard' [110]

'wel mi wyf finnau am yrru hwn iti. Mi weli mae llun Liverpool ydyn hwy i gyd gan ddisgwyl y cymerid di hwy yn carredig fel ac y mae. Mae Will yn dweyd hanes ni i gyd wrthaf. Mae gin mam llythur ar i hanir i neud mi ddaw rhyw diwrnod. Y mae nadolig yn nesu mi cofia amdanat iawn iti yr hen Nel. Ydwyf Nel Jones. Y mae yn ty nesaf shop [gin] guni tipyn o bob beth mi cai hanes yn y llythur mam. Cofio goreu atat i gyd yma fel teulu. Bawb yn iach yn bob man ?TMG' [108]

Efallai mai'r 'fam' y cyfeirir ati yma yw mam Nain, a Will yw ei brawd, William Hughes, a oedd efallai hefyd yn byw yn Lerpwl.

'... I received your parcel this morning thank you very much. But they had come to early. Your mother and Nel was here this afternoon on tea and Ceinwen. I am sure that Mary has been doing these things. Maddau i mi am fy English ardderchog. Ydwyf N Jones. Mae dy fam yn cofio y dol. yma o hyd. [115]

Cyfnither Nain oedd Ceinwen, a bu farw'n ifanc.

Mae llawer iawn o'r cardiau yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phobl lleol:

'Dear Nell, I got your PC and I was very glad to get it. I am very worry that I have been so long without sending you one, send me one from Bethesda I will send you one of Carmel as soon as they are ready. How is all the family. John Bwlch y ffordd wants to see you very much, yr hen galon Papur HM xx' [31]

O Rosgadfan gyda llun 'Menai Bridge and 'La Marguerite': 'Fy anwyl gniether, dyma fi yn gyru hwn i ti i ddweud dipyn am y trip ddoe. Cawsom law mawr anferth ac yr oedd llawer iawn ofn i'r bont dori ond er hynu mwynhaodd pawb eu hun yn dda iawn ac yr oeddem yn falch iawn wrth weld y stemar fawr. Ydwyf Tom' [78]

Mae cerdyn trist oddi wrth J?W Hughes yn 1906 yn mynegi hiraeth a thristwch o orfod gadael cartref y pentref:

'15 Mackintosh St, Aberfan, Merthur fale, South Wales. Anwyl Nell dyma fi yn anfon gair atat gan fawr obeithio dy fod yn iach a phawb yna yr un modd. Mae yn ddrwg iawn genyf ddeud nag ydwyf fi ddim yn cael fy iechid yma. Mi yr ydwyf wedi bod yn fy ngwelu ddoe a heddiw ac mae yn bur debyg y byddaf yn dwad adra yn fuan os na fyddai i yn gwella ac mi rydwyf yn lecio yn iawn yma oni bai am fy iechid i a chofia fi at bawb. Yr hen Nell mi fyddai i yn meddwl llawer amdanat ti a chofia atab hwn gyda throiad y post. Yr hen Nell mi gei lythyr y tro nesaf mae yn bur debyg gei di gael gwybod dipin bach o fy hanes a phaid a digio am fy ? a dwad wrth Now am ddwad yma i ? am dana i. Mae yma le difir iawn wythost ti ar ol beth sydd arna i hiraeth mwyaf ar ych holau chi fel hen genod anwyl toes yma ddim genod yn y South yma ddim gwerth gen i siarad hefo nhw a toes yma run o hono ni yn gneid lol hefo nhw yma' [48]

Mae llawer o'r cardiau yn cyfeirio at faterion cyffredin bob dydd y cyfnod:

'Dyma eich photos wedi dod o'r diwedd Cofion ?' [26]

O'r Bermo (Barmouth): 'We are all freezing down here, but the weather is quite fine.' [66]

Llun o ddyn 'The Territorial. In ambush.' ymysg merched: '11 Beach Lawn, Waterloo, 7/6/10. With kind regards, hoping you are well from Nellie. The weather here is splendid at present, a bit like June. What do you think of the frontpiece, first-rate for the fellow' [142]

'Dear Miss Hughes, sorry we can't fulfil our promised visit tomorrow as we had some visitors staying they came today they are staying till Saturday hoping you are well. Cofion cynnes TS Griffiths.' [144]

O Lanfairfechan: 'Pa hwyl sydd erbyn hyn yr hen Nell. Its to bad that you aint around here. This is a lovely place for a few days and the weather is so fine. Cofion goreu at bawb' [219]

'Just preparing for the (Pri lim) arrived about eleven. Starting home with the ?excurtion 9.30. With kind regards ?' [272]

A cheir sawl cerdyn doniol lle mae'n anodd dirnad gan bwy, ac ym mha gyswllt, y cawsant eu hysgrifennu:

Llun o gathod fel lladron yn ymosod ar goets fawr 'The Attack on the Stage Coach', gyda'r geiriau 'Mae hen ferch yn hoff o gathod' mewn llythrennau bras. [24]

Llun o Edna May, actores enwog o'r cyfnod, yn gafael mewn ci blewog, a'r geiriau 'Dryo un wash bach iddo fo eto mi fydd yn dlysach o beth' [41]

Cerdyn 'Poor Pa's troubles, Pa gets into Hot water' gyda'r cyfarchiad 'Good morning Miss remember me to him ? my dear dad' [44]

'Norfolk St, Bootle, Saturday.
October's child is born for woe
And life's vicissitudes must know
But lay an opal on her breast
And hope will lull those wos to rest
With all our good wishes to you on a happy Birthday' [106]

'Ta ra ra bwm di a, this is a washing day.' [123]

Lerpwl

Mae'r rhan fwyaf o'r cardiau yn y casgliad o'r cyfnod pan symudodd Nain i Lerpwl ac ymgartrefu yno. Mae'r gohebiaeth yn tanlinellu'r cysylltiad cryf rhwng Sir Gaernarfon a Lerpwl, 'Prifddinas Gogledd Cymru' fel y gelwid hi'r pryd hwnnw. Roedd Nain yn un o'r degau o filoedd a deithiodd o gefn gwlad i'r dinasoedd er mwyn cael gwaith, ond oedd ar yr un pryd yn cadw cysylltiad agos â hynt a helynt eu pentrefi genedigol.

Roedd y llwybr a droediodd Nain o Rostryfan i Lerpwl yn un poblogaidd iawn i bobl ifanc y cyfnod, ac mae'n amlwg bod gan Nain sawl cyfaill oedd wedi teithio yno'n barod.

Cafodd tri cerdyn eu gyrru ar yr un pryd o Lerpwl yn mis Medi 1904, y naill yn ddi-enw [12], a'r ddau arall oddi wrth Nell:

'Sut yr wyt ti yr hen faeden siosi good Night Nell' [13]

Gyda llun o ddyn yn gwylltio 'A telephone tragedy (in 6 Acts)' mae'r geiriau 'sal ydi o maen siwr Mae y ddanodd ar y dyn yna am na fuasa fo wedi cael unbrella da' [9]

Tybed beth yw ystyr 'faeden siosi' a'r cyfeiriad at 'unbrella/umbrella da'?

Yn 1905, ceir cardiau oddi wrth Hannah, un o Lerpwl a dau o Rostryfan:

'177 Molymer Rd, Fairfield. Dear Nell, please to tell you that I'm enjoy myself. The weather has been fine. I'm coming home this Saturday. Hoping that yru'r all well. I'll come to see you soon when I come back, remember me to all the family ...' [29]

'I hope you will not be vexed with me for not coming to see you Tuesday. If everything goes well I'll come Wednesday. In [I'm] certain Dora is not coming this week...' [35]

Yna, cerdyn oddi wrth Dora ei hun:

'8 Lessops Rd, Smithdown Rd, L'pool. Anwyl Nell, yr wyf yn gobeithio eich bod yn gwella yn iawn. Yr wyf fi yn mwynhau fy hun yn iawn yma ac yn cael tywydd hynod o braf. Yr wyf wedi gweled llawer o ryfeddau mawr erbyn hyn. Ydwylf Dora' [45]

Tybed pa effaith a gafodd llythyrau fel hyn ar Nain, a oedd yn ddeunaw oed ar y pryd? Erbyn Tachwedd 1906 yr oedd Nain wedi symud i Lerpwl ac yn blasu'r 'rhyfeddau mawr' ei hunain.

Ffrind arall iddi yn ystod y cyfnod cynnar oedd Phoebe:

'44 Canning Street, Liverpool. Sunday. Dear Nell, sorry I wasn't able to come to see you today. I had to go in by ? p.m. Will you please send me a word whether you be out on Sunday next or not. I shall call and see you about 4.30 don't forget...' [50]

'... I shall call on Sunday and see you. I shall be there about half past four or five o'clock. I hope you like your place alright...' [53]

Ceir cerdyn oddi wrth Lisa, a oedd hefyd yn gweini mae'n debyg:

'Fuo Mrs yma yna heddyw. Neu di yrru i ddeud tydi hon ddim am gadw dim ond un forwyn. Gyra i ddeud be ddeudodd hi. Fasa biti gadael Nell yma ei hun. Fasa yn torri? ei chalon...' [81]

Dechreuodd Pollie ohebu o Rostryfan tua'r un adeg:

'Dear Cousin, will be coming there tomorrow with 12 train from Dinas. Will be thereabout 5. Come to meet me...' [51]

'Shall come with the 2.50 train from C'von. Hope you will be able to meet me. Had a letter from John today. He says he will meet me at Lime St station...' [54]

'100 Beatrice Street. Anwyl Nell, Dim ond just air i ddweud fy mod wedi cael lle. Yr wyf ar frys. Dof yna Dydd Iau os byddi yn dod allan neu dof i dy gyfarfod i'r dre. Gyr air i mi...' [56]

Ymgartrefodd Pollie yn gyflym iawn:

'... I think it will be better if you will come down to Lime St tonight, and I will come and meet you I will be there about half past 6. Mae John yn cofio attat. Lots of news to tell you tonight. I want to go to Lewis's to buy a pair of Boots. Ta Ra...' [57]

Ceir seibiant wedyn yn yr ohebiaeth rhwng y ddwy, ond credaf mai yr un Pollie sy'n ysgrifennu at Nain o Birkenhead ym mis Ebrill 1914:

'... Thanks for PC. I hope that you are having a good time, but I am glad to say your holiday is nearly over. I am beginning to feel very lonely without my boy. Don't forget to let me know what train you are coming home by so I can come to meet you. I had a card from Jenni Jones yesterday, she is coming home tomorrow. The Cooksons are coming here tomorrow so chat will pass the time. Did JO send you a PC. Love from your chum Pollie' [241]

Tybed pwy oedd y 'boy' y mae Pollie yn cyfeirio ato – ei mab efallai?

Un arall gyda chysylltiad gyda Rhostryfan oedd Blodwen:

'Lisbon House. Dear Cousin, just a line to remind you that I am still in the land of the living. Will you be at Bootle on Sunday. I am going there. I will be at Mrs Davies so come there, if you are up, and remember to come early, send word to tell me will you be coming. Lots of news to deliver you, with heaps of love and sacks of kisses Blod' [64]

'84 Grenville St, Edgeley, Stockport. Still alive and kicking. Like here. I will send you a letter bye and bye...' [145]

O Rostryfan: 'West Indies. Dyffryn Baca. London. I'm sorry that I failed to come today but will be there tomorrow about 2 os roi di dopyn yn twll y glaw. Cofion fyrdd Blodwen' [146]

Mae nifer o gardiau oddi wrth Nellie Evans, y cyntaf o ?Ceniwr gyda marc post Sarn, Pwllheli, yn Awst 1914:

'Mi cyrraeddais adref yn safe dydd Sadwrn. Dos dim hwyl i cael y ffordd yma. Rwan y maent wedi stopio eisteddfod Bangor a show Pwllheli a ? o regetta [regatta?]. dos yna ddim byd yn mynd yn mlaen. Y mae yn wneud tywydd braf iawn rwan. Cofion goreu Nellie' [248]

Mae'n debyg na chynhaliwyd yr eisteddfod, y sioe a'r regatta oherwydd y rhyfel.

Gyrrwyd y cardiau nesaf o Redcliffe, New Brighton, Wallasey, tŷ mawr lle roedd Nellie yn gweini mae'n debyg:

'Redcliffe. Derbyniais eich PC a ddiolch i chwi amdano. Mi ddeu i New Brighton neithiwr. Does fawr o damper arnaf heddiw. Byddan yma ein hunain etto am week y maent yn mynd i ffwrdd. Mi ddoef yna y Sul cyntaf wedi i chwi dwad yn ol o Cymru ond gaddewch i mi wybod pa bryd y byddwch yn dwad yn nol...' [250]

Tybed beth yw ystyr y gair 'damper' yn y cyswllt yma? Efallai mae 'tymer' a olygir – does dim llawer o dymer arnaf heddiw?

'Redcliffe. Yr wyf am dwad yma fory sef dydd Mawrth yn lle dydd Mercher. Yr ydan yn mynd allan i gyd am y diwrnod. Sut y ddaru chwi enjoyio eich hun yn Cymru. Wedi meddwl y buaswn wedi eich gweled nos Sadwrn...' [252]

'Yr rwyf am dwad yna dydd Sul os y bydd yn braf. Yr wyf wedi neud fy meddwl. Mi fuom yn gweled i priodas y bore. Ddisgwyl y bydd y ?cogs Waenfawr yn capel nos Sul...' [256]

Nid merched yn unig oedd yn cysylltu â Nain yn Lerpwl, roedd nifer o ddynion yr oedd hi'n eu hadnabod o Rostryfan hefyd yn ysgrifennu ati. Yn aml iawn, roedd yr ohebiaeth yn ymwneud â llongau oedd yn hwylio o'r ddinas, sy'n ein hatgoffa bod Lerpwl yn borthladd pwysig iawn yn y cyfnod, ac oddi yma yr hwyliai pobl oedd yn ymfudo i'r Unol Daleithiau.

Yn 1913 teithiodd Evan Price a Harry J Williams i Efrog Newydd, yna i Bangor PA, ac ymlaen i Vermont, i chwilio am waith yn y chwareli llechi yno mae'n debyg. Mae Evan yn dechrau:

'Wel pa hwyl sydd arnoch erbyn hyn. A ydych wedi cael anwyd ar ol mynd adref trwy y gwlaw. Cofion goreu oddiwrth E Price xxx' [219]

Wedyn Harry yn ysgrifennu o Gaernarfon:

'Yn ol yr addewid dyma PC i chwi. Byddaf fi a Evan Price yn cyrhaedd Lime Street tua 6 o'r gloch nos Lun, ac am aros gyda Hugh Jones, Bangor House, 19 Earle Street, St Paul Square. Yr ydym i fod ar fwrdd Carmania am 3 o'r gloch pawns mawrth... Harry' [220]

Bythefnos yn ddiweddarach, Evan o Bangor PA:

'Pa hwyl sydd arnoch bellach. Cawsom wlaw dychrynlyd ar ein glaniad yn New York. Cofion goreu E Price, State Room, D19, Carmania' [222]

Hydref 1913:

'Box 103 West Pawlet, Vermont USA, Oct 13 1913. Wel Nell, Dyma ni wedi cyrhaedd pen y daith ar ol cael wythnos ar y mor ag wythnos tua PA. nis gallaf gofio imi erioed fod yn fwy hiraethus nag yr ydwyf y dyddiau yma, mae yr hen wlad ar y 'brains' yn wastad...' [226]

'West Pawlet, Vermont, USA, Box 103. Yr ydym wedi cyrhaedd pen y daith yn ddiogel a thipyn o hiraeth ar ol yr hen wlad. Cawsom llawer o hwyl wrth groesi...' [227]

'Box 428, Poultney, Vermont USA Nov 28 13. Mae fy hiraeth yn dechrau gwisgo i ffwrdd yn araf deg. Roedd hi yn 'Thanksgiving day' yma ddoe a collodd [a lladd] miloedd o 'Turkeys' ei bywydau trwy'r amgylchiad. Gwelwch fy mod wedi symud eto. Cofion goreu HJW' [229]

Tref yng nghanol ardal lechi oedd Poultney, ac ymfudodd llawer o Gymry i'r dalaith yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Tybed beth ddigwyddodd i Evan Price a Harry J Williams?

Dau arall a gyrrhaeddodd Utica, Efrog Newydd oedd ? JJ Parry a ? Hughes, y ddau yn gyrru'r un llun o 'Entrance to Forest Hill Cemetery, Utica, NY:

'68 Steuben St, Utica, N York. Anwyl frind, gair neu ddau i ddangos fy mod yn fyw ac yn legio fy lle yn iawn. Dyma llun yr entrance i fyned y fynwent lle mae RW. Anfon llythur i mi NH a dipin o hanas ?JJ Parry' (1912) [198]

'Wel rhen Nel dyma fi wedi cyrraedd Utica yn saf boreu dydd sadwrn ac yn aros hefo Lewis ar hyn o bryd i gael dipyn bach o rest. Tydiw i ddim wedi penderfynu yn iawn eto i ble i fynd. Dyma lle mae RW wedi cael ei gladdu. Cofion goreu ? Hughes' (1913) [221]

Mae Utica yn adnabyddus fel ardal amaethyddol lle'r ymfudodd llawer o Gymry yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Tybed ai Rowland Walter (1819-1884), chwarelwr a bardd adnabyddus yn y cyfnod, oedd yr RW y mae'r ddau yn cyfeirio ato?

Ceir cerdyn heb ddyddiad gyda llun Wallace, Idaho 'The Richest Town of its size in the World' gyda'r cyfarchiad:

'Anwyl Nelly, dyma i ti rhiw PC ? y lle hwnw aeth ar dan yn Idaho yma. Mae yn debig iawn dy fod wedi clywad llawer o son amdano. Yn fan hyn y darfu y ?cyrf rheini losgi. Mi roedd fan hyn le ofnadwy yr amser hwnw. Mi fuomi i yno yn gweld yr olygfa. Cofia fi at bawb yna yr hen galon Ydwyf ?' [273]

Yn wir, dinistrwyd traean o dref Wallace yn 'Nhân Mawr 1910', y tân coedwig mwyaf yn hanes yr Unol Daleithau, a lladdwyd 87 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn ddiffoddwyr tân.

Daw nifer o gyfarchion oddi wrth forwyr oedd yn hwylio o Lerpwl:

'Dear Cousin, Im taking the pleasure of writing a line or two to you hoping that you are in the best of health the same as I am at present. I am very sorry to tell you that I will be in Liverpool next Friday afternoon ready to go over to America with the Lusitania on Saturday. Ill hope that I will see you on Friday with the two o clock train Im comeing. I havent got anything els to tell you now xxxxx Blame the Pen not the writer, Mr so and so' [116]

Wrth gwrs, fe ddaeth y Lusitania yn enwog yn ddiweddarach pan suddwyd hi yn ystod yr ail ryfel byd gan 'U-Boat' Almeinig, a lladdwyd dros fil o'i deithwyr a'i chriw.

Dau gerdyn oddi wrth OTW:

'Dear Cousin. Just a line or two that you may know that I am going away tomorrow on the Adriatic...' [208]

'RME Adriatic at sea. Gair neu ddau iti gael gwelid fy mod yn fyw o hyd. Ni chefais gyfle i ddod yna y tro diwethaf. Yr wyf am fyned gartref tro nesaf...' [211]

Oddi wrth HJE a WB:

'146 Market St, B'head. Just a line in great haste to let you know that I have joined the 'Teutonic', and that we sail from the landing stage about 4.30 Sat for Quebec and Montreal. I very much [hope] you'll have a good time at the picnic today. Cofion gorau attoch, ac hefyd at y ddwy Miss Jones. Kindest regards HJE.' (1914) [245]

'Dear Sister, just a line or two to let you know where we going next. We are leving here on the Friday eigh to SS Beatrice ? again ? to the same ? WB' [269]

Mae dau gerdyn heb ddyddiad o HMS Paragon oddi wrth WTE ac SAE [205] [206] – gweler isod. .

Ceir cardiau eraill o dramor. Yn 1907 ysgrifennodd T?Griffiths gerdyn o Montreal, gyda llun o gariadon arno:

'RMS ?Vangunean, Montreal, Oct 21st 1907 Dear Miss Hughes, just a few lines to let you know that we arrived here on Saturday. I hope that you like the postcard but dont follow that example they are nice pair. We will be home two days after you get this. So I come to a close with kind regards ?? T Griffiths.' [83]

Mae eraill a oedd yn adnabod Nain yn dweud wrthi am eu hymweliad â'r ddinas:

'Yr ydym yn cychwyn adref hedyw dydd mercher ar ol mwynhau ein hunain yn iawn ? JGH' [82]

'Penybryn, Mynytho, Pwllheli. Dear Miss Hughes, arrived safely and had a pleasant journey. Not many news. Please send PC. Best wishes to all. Yours truly, Bob Morris' [244]

'No 26 Neptune St, Birkenhead. Wedi gyraidd yma erbyn 3 or gloch ag wedi gael login gyda gymraes Jack Lewis [Terfyn]' [255]

Mae rhai o'r cardiau yn dymuno'n dda, ac yn tynnu coes Nain am symud i'r ddinas:

'Annwyl Nellie, mae yn dda ganyf dy fod yn leicio yn y lle mawr yna. Yr un fath yde mam o hyd. gofia mi at antie ac uncle a kathleen. Hyn yn flar oddiwrth Nellie Roberts' [52]

'Dearest Nellie, Blwyddyn newydd dda i chwi a llawer iawn ohonynt. Fedrwch chwi ddim spario dim amser i ysgrifennu gair...' [61]

'Hylo, yr hen fil blynyddoedd lle rwyd ti yn byw. Mae hi yn braf yn Nghymru yma. Ysgrifena yn fuan. Ydwyf yr hon ydwyf' [65]

'6 Neville Crescent, Llandudno. Not quite forget you yet but very near. With best regards. Your truly friend Nellie Griffith' [72]

'Miss Hughes ... gyra lythur i mi os y byddi wedi derbyn y post card yma. A fedre di siarad cymraeg o hyd os medri gyra lythur. Hwn a hwn.' [84]

Ceir cardiau hefyd oddi wrth gymdogion yn Lerpwl; ym mis Awst 1907 ysgrifennodd J Roberts, o 26 Benedick Street, Bootle:

'Dear Miss Hughes, I hope you are well and enjoying your self. Plenty of rain. I dusay your time will soon be up now. We had a grand time of it last week the Pageant was fine the twn packt with people from all parts of the Globe...' [71]

Gweini

Symudodd Nain i Lerpwl i weini a bu'n byw yn 177 Upper Parliament Street, tŷ mawr, ac mae'n hawdd dychmygu bod llawer o forwynion a gweision yn arfer gweithio yno. Mae llun o'r ty yn y casgliad [130].

Yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif, dirywiodd yr ardal, a dinistriwyd nifer o dai yn ystod terfysg Toxteth yn 1981. Fodd bynnag, cafodd yr ardal ei hadfywio yn y 1990au, ac mae cyflwr y tŷ heddiw yn debyg i sut yr edrychai pan oedd Nain yn byw yno.

Yn ôl cyfrifiad 1911, y teulu Zengheor-Herrmann oedd yn byw yn 177 Upper Parliament Street – Alphonse, y penteulu (59 oed); Helen Selina, ei wraig (nee Carrington) (43); Ada Helena, chwaer (59); Alphonse Carrington, mab (12); Helen Margaret, merch (9); Mary Hayman, 'servant – cook' (44); ac Ethel Mary Blunsden, 'housemaid' (18).

Disgrifir gwaith Mr Herrmann fel 'Professor of Music', ac yn ôl ffynhonnell arall mae'n debyg bod ei chwaer Ada hefyd yn Athro Cerddoriaeth 'though her speciality was singing.' Efallai bod y ddau yn efeilliaid ac mae'r cyfrifiad yn nodi 'Naturalised British subject 1867' pan oeddynt yn 15 oed. Cyfansoddodd Alphonse 'Opera - Le Célibataire Maire' yn 1874, Overture – Lan Couranne D'Or (The Golden Crown) yn 1887, a'r gan 'At Your Gate'.

Ceir cyfres o gardiau oddi wrth Mr a Mrs Herrmann, eu plant, a hefyd enw arall sy'n gysylltiedig â'r teulu – G Morton Lloyd – maent i gyd ar wyliau gyda'i gilydd ar yr un pryd, sy'n awgrymu bod G Morton Lloyd wedi gweithio i Mr a Mrs Herrmann am gyfnod.

Daw'r cardiau cyntaf ym mis Awst 1907 o Chudleigh, Dyfnaint:

'Many thanks for the pretty post card you sent me. As we did not know your address, we could not write before. I hope you have enjoyed your holidays. It is lovely in the country. G Morton Lloyd' [74]

'Dear Hughes, thank you for the PC. I hope you have had nice holidays. From Fonso' [75]

'My dear Hughes. Thank you for the pretty present you sent me. Love from Margaret' [76]

A chardiau tebyg ym mis Awst 1908 o Robin Hoods Bay.

Anfonwyd nifer o gardiau rhwng 1908 a 1914 oddi wrth J Morton Lloyd, unai o'i wyliau neu yn dymuno Penblwydd, Pasg neu Nadolig Hapus, ac hefyd oddi wrth Mr a Mrs Herrmann a'r plant.

Mae gohebiaeth dros gyfnod hir oddi wrth Mary - 'servant-cook' y teulu. Ei henw oedd Mary Hayman a hanai o Ben-y-bont ar Ogwr yn yr hen Sir Forgannwg. Mae'r cyfarchion yn ffurfiol ar y cychwyn, ond gydag amser mae'r berthynas yn fwy clòs rhwng y ddwy.

Anfonwyd y cardiau cyntaf yn ystod Haf 1907, tra oedd Nain a gweddill y morwynion ar eu gwyliau.

O Birmingham: 'Dear Hughes, thanks for the PC glad you got home safe. I had to wait till the twelve o'clock train. There was not one at half past ten, it went out at 10 o'clock. I got hear at three. I am enjoying myself, hoping you are doing the same. It very wet hear today... We were going her today but its raining. Hope you have had all the hay in.' [67]

Yn ddiweddarach yn yr haf dychwelodd Mary i'w chartref ym Mhen-y-bont:

'Dear Hughes, I hope you are having nice weather as its nothing but rain since I came home. I hope the wedding went of all right.' [70]

Mae'r patrwm yn parhau ym mis Awst 1908, gyda Mary eto yn ysgrifennu o Ben-y-bont:

'... the weather is lovely a bit to hot to get about. I had my box Thursday twelve o'clock glad you had your alright. I said that you would like the baby. Have you got the hay in yet. I am busy sewing. I am going for a trip tomorrow. Hope you will have a nice time on Monday'[93]

'... I did not go any where on Monday as my mother was very bad, but my sister and her husband went hear [Cheltenham]. I was going but stayed home as we could not leave mother...' [94]

Yn y cerdyn gyda'r llun 'Vegetable lovers' mae Mary yn rhoi cyngor i Nain:

'... I hope you will like this card as I know you are fond of comic one but at the same time I hope you are not doing like this one...' [98]

Mae'r pryfocio yn parhau rhwng y ddwy:

'... thanks for the PC but I dont do such things as that ... I see that you are enjoying your little self ... give my best wishes to Nell and every happiness in her married life...' [100]

Awst 1909:

'Dear Hughes will you send me a blouse that fits you as my sister forgot to keep the pattern of the other. Send it next week if you can ...' [126]

Erbyn 1911, a Nain wedi gadael 177 Upper Parliament Street, mae Mary yn cyfarch Nain gan ddefnyddio ei henw cyntaf ac mae'r cynnwys yn llawer mwy cyfeillgar:

'Dear Nell, had the basket last night. Day out today taking it round to Millie. Had straps as well. I thought I let you know so I hope you are not frozen up. So tat tar old girl...' [155]

Ond yn ddiweddarach y flwyddyn honno, ceir newydd trist:

'Ghula Visla, East Looe, Cornwall. Dear Nell, I am sorry to tell you my mother is dead last Saturday and I was not able to go home to see her at the last. I have felt it very much and now my home is gone. Write soon best love from your old pal Mary' [165]

Mae'r ohebiaeth yn parhau yn 1913:

'... can you come to see me on Thursday about 2 o'clock as it's my day out. Mollie will be with me and where you like by Lewis or in London Road. I am going to have soon more photos done as it's the best I have had. All bad here with colds. We are nearly blown away with the wind...' [206]

Mae'r cerdyn olaf yn y casgliad oddi wrth Mary yn 1916 yn dymuno Pasg hapus '... from your old Pal Mary' [274].

Ceir cerdyn o 1908 mewn llawysgrifen wahanol, gyda llun o stryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, oddi wrth 'Miss Hayman when home on Witsun' ac rwy'n amau mai chwaer Mary oedd hon.

Mae'r cardiau o Awst 1910 i Ionawr 1913 i gyd wedi eu cyfeirio i Garreg Wen, sy'n awgrymu bod Nain yn byw gartref yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, symudodd yn ôl i Lerpwl, i 88 Camden Street, Penbedw, ar ddechrau 1913. Mae'n debyg bod Nain yn 'housekeeper' yma gan fod hwn yn dŷ llawer llai, ac yn ôl stori deuluol roedd hi hefyd yn casglu rhenti dros y perchennog. Mae'n ymddangos mai'r teulu Evans oedd biau'r tŷ, a bod ganddynt gysylltiad â Sarn, Pwllheli, ac oddi yma yr anfonwyd y cerdyn cyntaf:

'I will try and call to see the White stone on Wednesday if the weather will be favourable. Glorious weather here. Cuckoo busy at it every day so far. Cwafod ?gothau Annibynwyr ddoe yma, brawd Rheidiol Roberts a ?WE Lewis or south yn gethu. Cofion gorau RE' [210]

O Birkenhead: 'Daeth eich llythur i law. Wm yn dod yn ol dyd Llun. John buaswn yn gwella yn dda yn ol ei lythurau, trampio llawer bob dydd yn ngymdogaeth Aberdaron, yr oedd yn Abersoch un diwrnod gyda Miss Jones. Gwelais eich Ewyrth ddyd Mawrth...' [216]

Wedyn yn 1916, ar ôl i Nain briodi:

'88 Camden St. There is a letter addressed to ...from .. Will it be yours do you think? Do you know any body there? Regards, R Evans' [277]

Mae'n ymddangos bod cysylltiad gyda Evans arall - SAE – oedd ar ei ffordd i India:

'If I've left any photos – I mean photos taken since I've been home – will you post them on to me at Rhydybergan. I'm afraid I may have forgotten some and if I have they'll be lying about. It ?kept here for a wonder ?SAE' [257]

'SS Simla 17.11.1914 Mae hi yn tywydd braf rwan ond rydw i wedi bod yn sal iawn, salwch y mor, yn 'Bay of Biscay' Fyddwn yn Gibraltar heddyw lle caf cyfle i postio y cerdyn 'ma...' [258]

'27.xii.1914 I arrived here on Wednesday after a journey of six weeks and I am not sorry to settle down again. All my old servants have come back to me and I've resumed my old ways without trouble. Lots of my friends from here have gone to the war and more are going. Pa sut mae'r ?cnau ?SAE Excuse the card it's a Malta one!' [259]

Roedd hefyd Evans arall ac a arhosodd ar ei wyliau ym Mhantysaer – gweler isod.

Carwriaeth

Anfonwyd cardiau mwyaf ffraeth y casgliad gan ddarpar gariadon, oedd yn gobeithio gweld Nain neu drefnu oed. Ar flaen nifer o'r rhain ceir lluniau doniol, yn awgrymu carwriaeth. Ysgrifennwyd nifer helaeth o'r cardiau hyn yn hwyliog, ond mae rhai eraill yn fwy difrifol.

Mae cardiau cyntaf y casgliad, wedi'u cyfeirio at Miss Nellie Hughes, Dressmaking Department, Afr Aur/Golden Goat, Carnarvon. Disgrifir 'The Golden Goat' fel 'General Drapers, Milliners and Customiers' yn yr archifau. Mae'n nodweddiadol bod y cardiau wedi eu gyrru i leoliad gwaith Nain, yn hytrach nag i'w chartref. Mae'r rheswm am hyn yn eithaf amlwg o'u cynnwys:

'How are you my dear little thing?' [2]

'Dear Nellie I hope to see you up on thursday night your truely M Williams' [4]

'My Dear Nellie just a few line hoping you are not going to Hermon yours truly M W' [16]

'Anwyl Miss Hughes dyma fi yn anfon gair chi mi 'fuomi' yn carnarvon dudd merchar yn lle dudd lau wel gobeithio eich bod yn eich iechud yn iawn wel ydwif eich fruid AG' [6]

'Anwyl Miss Hughes dyma fi yn anfon y Post Card i chi gud aphleser mwyaf agoBeithio ycai ma yn (?) yn fuan oddi wrthuch chithau Nellie. Wel ydwif yn caredig eich frundia AG' Mae 14 sws (x) ar waelod y cerdyn. [11]

Nid oes dim amwysedd o gwbl gyda cherdyn cynnar arall o Gaernarfon:

'My Dearest Dear, Forgive these few lines to you but my heart is full of love for you. If I could tell you how I love you, I should be a poet, no one is half as dear to me as you, sleeping or waking it is always you. Your beautiful face and form Divine, I adore no wonder I get so thin thinking always of you. If you do not return my love my heart will break (and you can have the pieces) do smile on poor me, I will love you as no one else can so meet me by the Elephant trunk as soon as you can PS tell the old folks that you will not be home till late so they can go to bed, I am a Pretcher, what do you think of me, you gor to do something with me. There is a kiss x Ms ?Cun, Cougar House, Kinear terrace, Ns Trosol, Trofal, NW' [27]

Ar gerdyn 'Where are you going my pretty maid', mae'r awdur wedi ysgrifennu:

'Oh my pretty maid I see you like a dolly Oh my heart is just broke when I see on your face and your parcel hoping I see you in C- nest S. I am your Dear Love.

'Annwyl Cariad Dyma i ti Postgard yr ? Gan ddisgwyl y byddi yn eu dderbyn gyda chroeso beth feddyliat ohonom ni tyda ni yn edrach yn dda' [30]

Mae sawl cerdyn yn cyfeirio at weld Nain yn y capel, neu at ei chyfarfod hi yn dilyn y gwasanaeth:

'Ysgubor Fawr Farm, Llanwnda. Dear Miss Hughes, I heard that you were in Brynrodyn chapel last Sunday night. Oh! Pity I wasn't there. I hope you are well, same as I. I would like too see you in Brynrodyn next Xmas night (Monday). Do you like this PC excuse writing with best love from Rd [Richard} Jones do you remember me, do you keep my photo still' [33]

'Anwyl Ffrind, disgwyliaf chi i lawr y Sul nesa os bydd y tywydd yn caniatu. Dowch ar eich union or ysgol sul. Mi disgwylas wrthyh y noson hono ar gyfer y shop nes oedd pawb wedi clirio yn meddwl eich bod i fewn o hyd, hyn gan gofio atoch ydwif ?Jessie/ Jossie' [153]

'April 25th 1912 Glyn Dwr. Anwyl Miss Hughes, just air bach i ddweud fy mod am ddal at fy addewid sef dod yna, at gyfarfod pnawn fory, os byw ac iach, cofion cynes attoch oll yna, ydwyf ?Laurie Hughes' [192]

'Bidson Rd, Birkenhead. Anwyl Miss Hughes. Just air neu ddau i ddweud mod yn ddrwg genyf fethu dod yna Dydd Llun fel y adduais. Roeddwn wedi meddwl eich gweled nos lun ond yr oedd yn hwyr iawn a finnu eisiau galw yn Cob St. Disgwyl y caf eich gweled nos Sul. Gobeithio y gwnewch faddai i mi am y tro. Cofion fil attoch. M Williams' [270]

Yn 1906, ceir cyfres o gardiau o Crewe oddi wrth Wil Evans:

'Nantwich Road, Crewe. Anwyl Ffrind, cefais hyn o gyfle i anfon hyn o leiniau atoch i'ch gwneyd yn hysbys fy mod wedi cyrhaedd yn safe. Yr wyf yn gobeithio eich bod yn iach ac yr wyf finnu. Ta ta Dear mae arnaf hiraeth mawr hyn yn fyr and very dirty from WE' [36]

'Anwyl Ffrind, yr hen gariad bach anwyl hefyd. Derbyniais eich PC yn safe a da oedd gennyf ei gael a clwaed eich bod ar dir y rhai byw yn fyw ac iach fel ac yr wyf finnu yn bresenol. Nid oes genyf ddim newydd i anfon i chwi. Yr wyf yn gobeithio eich bod wedi mwynhau eich Hdays tia Malltraeth. Mae arnaf hiraeth mawr iawn byth am gael eich cwmni. Mae yn drwg na faswn wedi anfon yn gynt, gobeithio eich bod wedi mwynhau dydd mawrth gramog. Mae yn rhaid i mi derfynu yn awr gan gofio atoch yn modd mywaf garedig Will Evans fawr o amser' [38]

'yr hen galon anwyl, mi dderbyniais eich PC yn safe ac roedd yn dda gennyf ei gael o a clwaed eich bod ar dir y rhai by fel ac yr wyf finnu yn bresenol. Toes genyf ddim newyddion i anfon i chwi. Yr wyf yn gobeithio eich bod wedi mwynhau eich hunan yn carnarvon dydd Llun. Gobeithio na fyddwn ni ddim yn hir heb weld ein gilydd rhen gariad bach oddi wrth WE mae hi yn brysur iawn yma' [42]

Nid oes llawer o gardiau Cymraeg yn y casgliad, ond mae Wil Evans yn gyrru un ohonynt - 'Gweno fwyn (Winnie dear)':

'Wel gweno fwyn mae arnaf hiraeth of nadw iawn am gael gair oddi wrthach, i pa le yr ydach wedi mynd, yr wyf fi wedi dyfod yma rwan. Anfonwch air i mi neu mi fyddaf siwr o farw' [43]

Ar ymylon y cerdyn mae WE wedi llunio pedair croes, neu o bosib sws, sy'n tanlinellu'r melodrama sydd yn y cynnwys.

Yn mis Chwefror 1907, tra oedd Nain yn dal i fyw yn 95 Garmoyle Road, derbyniodd gerdyn sy'n dra gwahanol i'r gweddill. Ar y cerdyn ceir llun o 'Tommy Atkins', soldwr dychmygol o'r cyfnod, yn dawnsio gyda gwraig, a photel o gwrw yn ei law. Mae'r geiriau yn berthnasol:

'Tit for tat, many thanks for your photo, wouldn't mind if I had the chance, you are both quite true to nature. Will be quite pleased to see you on Sunday but please leave the swing at home.' [62]

Mae'n amlwg mai rhywun yr oedd Nain wedi ei gyfarfod yn Lerpwl yw hwn. Ond beth oedd y cyddestun? Beth oedd Nain wedi ei ysgrifennu i ddenu'r ateb 'wouldn't mind if I had the chance'? Pwy oedd y ferch arall y cyfeirir ati yn 'you .. both'? Tybed beth yw'r cyfeiriad at 'leave the swing at home' – wnaeth Nain roi pelten iddo y tro diwethaf? A oes cysylltiad â'r llun ar y cerdyn?

Mae'r awdur hefyd wedi ysgrifennu pos ar flaen y cerdyn:

'Read see that me
Up will I love

And you love you
Down and you if'

Er bod y gair 'Shakespeare' wedi ei ysgrifennu o dan y geiriau, pos o'r 1890au yw hwn:

'Read up and down
And you will see
That I love you
If you love me.'

Mae'n amlwg bod Nain yn cymysgu gyda phobl tra gwahanol i'r rhain yn Rhostryfan.

Mae tri cerdyn oddi wrth E(dward) H(enry) Williams o Dinorwic House, Pen-y-groes, ar ddechrau 1914 yn mynegi teimladau mwy difrifol. Mae'n ddiddorol gweld bod y cardiau hyn wedi eu hysgrifennu ar yr union adeg yr oedd Nain yn gohebu gyda'i darpar wr (gweler isod).

Mae'r cerdyn cyntaf, sydd heb ddyddiad, gyda'r llun 'Until we meet again':

'To wish you a Bright and Happy New Year. For Auld Lang Syne. From your old friend Ed Hy Williams, Dinorwic House, Pen y Groes' [233]

Y llun ar flaen yr ail gerdyn yw 'How happy was the day when we first met':

'Dear Miss Hughes, Received your PC safe, but was very sorry to hear that you have been ill. I hope that these few lines will find you well again. (Baker) wants me to send you his kindest regards. We were talking this morning of the fine walks we used to have in the evening up to Rhosgadfan. Do you remember the time. I used to enjoy them alright whatever. I do not think there much news from here, every thing is much the same. I noticed the old frase in your PC 'so near and yet so far' don't you worry its not so far. Old friends are better than nue. Well space is getting small so I must come to a finish. Trusting these will find you in good health same as they leave me at present. This from your L--- (may I tell it) EH Williams' [234]

Cynnwys y trydydd cerdyn yw:

'My Dear Friend, Recived your PC safe. Very glad of it too. It is not so ? in the country here as you would think, no snow at all only frosty weather and bitterly cold. It has changed very much now though it is very stormy here today (rain and wind). Baker is very thick in love now cant get him off at all. I have not see[n] him to talk with this week. Dare say I will tomorrow. I'm very sorry that I missed you when you were home last time. Hope it wont be the same next time. Trusting these will find you well same as myself. Don't be so long in writing next time. This with love yours EH Wms xxxxxxx' [236]

Efallai bod EH Williams wedi syrthio mewn cariad â Nain, ond nad oedd hi'n rhannu'r un teimladau, yn arbennig ar ol cyfarfod Taid.

Mae'r rhan fwyaf o'r cardiau serch yn rhai doniol, gyda chyfarchion byr neu ddiennw:

Llun 'Lost a (heart) Will finder please keep it?' gyda'r neges 'I hope the album is being filled. Will send my photo first possible opportunity. The first time I tried the camera collapsed. Kind regards u i JS ? [68]

'Love Cake. 4 oz kisses, 4 sweetlips pressed well together with 2 oz love; 1/2 oz teasing 1/2 oz squeezing; bake well together in a young man's arms and serve in the dark.'

'Hoping you are better. It seems, I can never see you again N. Llwyndyrus coming here to service next Sat. Send word. Cofia fi at Kate Gwynfryn. Ydwyf Yr un, un' [69]

Dau gerdyn yn yr un llawysgrifen, y cyntaf gyda llun o Barmouth Estuary a'r awdur wedi ychwanegu 'T' o flaen 'here' yn 'I am being made quite a lot of here' ac wedi ychwanegu'r rhigwm: 'OPQ I know you, ABC Find out me.' [79] Mae'r ail heb neges ond gyda llun 'I've got a feeling for you' [150].

'... hwyrach y caf eich gweled yn Rhos dydd Llun... L Hughes' [151]

Ar gerdyn 'I love my wife but no more kids' mae'r awdur wedi ysgrifennu rhywbeth fel 'Y Gwir a dim ond y Gwir' [159]

'c/o Glyn helyg, New Road, Seven Sisters, Neath 13.11.1911 Miss Hughes, Gair rhag i chwi dybio nad wyf yn meddwl am danoch o hyd. Er mewn llawn prysurdeb mae'r meddwl yn Arfon yn aml, gorchwyl anhawdd fyddai eisio ei atal. Cofion cynes atoch GEG' [173]

O Rosneigr: 'Moss House. Dear Cousin, sorry I did not write you sooner. You know what sort of chaps there are about here, and same the girls. Yours sincerely OW' [189]

Ar gefn cerdyn gyda'r llun 'No surrender. Married by force' mae'r awdur wedi ysgrifennu 'gobeithio na ddigwyddith hyn byth i chi rhen gariad. Cofion goreu you know Pwy.' [207]

'20 Nicholson St, Warrington. Just to keep my promise. How do you feel after your holidays and how did you get home the other night. I hope to see you ? again ?naughty girl. Your truly JW' [239]

O Spartanburg, South Carolina, gyda llun 'Any engagement tonight?' y geiriau 'Howdy Cariad, what about this? Will probably be serenading you under the back window some moonlight night. Kind regards to all. Yours etc JEJ Get my message from Poll?' [251]

Llun 'Recipe – for Kissing Welsh Girls' y geiriau 'Thought that you would find this recipe useful. Cofion HR' [263]

Ond nid yn unig dynion sy'n cyfeirio at garwriaeth; mae rhai o ffrindiau menyw Nain hefyd yn gofyn amdani:

'How getting on with ?H after Friday. Ive had a c--. J(ane) A(nne)' [14]

Ceir sbort mewn cerdyn 'What we do on a Wet Day!':

'Rydal Mount, Churton Rd, Rhyl. Dear Nell, here is a PC for you at last. Trusting that you are still alive and kicking as I am myself. My word. I hope that you are getting better weather to spoon than these two gets. Its so miserable to S when its wet as you know. I'm glad to tell you that I'm enjoying myself fine at Rhyl. Don't know when will I return dead or alive old girl. How are you getting on with all the lovers. We are going to chapel just now. So good night dear. With kind regards Anne Hughes. Kate sends her love to you (be true love)' [197]

Teulu

Roedd Nain yn hanu o deulu mawr - teulu Garreg Wen fel yr adnabum nhw. Roedd ei thad yn un o saith o blant, a'i mam yn un o bedwar. Felly, roedd gan Nain lawer o berthnasau, a nifer o gefndryd, neiaint a nithoedd. Hefyd, roedd traddodiad teuluol o ddefnyddio'r enw Ellen (neu Nel/ Nell). Felly, mae nifer o'r cardiau wedi'u gyrru gan gefndryd/cyfnitherod, ac mae'r enw 'Nel' yn

ymddangos yn aml nes ei bod yn anodd gwybod weithiau pwy oedd yn perthyn a sut yr oeddynt yn perthyn i Nain.

Mae un cerdyn yn y casgliad oddi wrth Nain ei hun at ei Mam, o Rosneigr, Ynys Mon (gweler y cysylltiad, isod) yn mis Awst 1911:

'Dear mother, dod yma nos Fawrth ?drivio i Bodorgan, mae yma le hyfryd. Glan y mor grand. Fe fuom mewn Concert neithiwr Royal Welsh Choir. Fe oeddynt yn canu yn ardderchog i llawer o bobl ddiethr sydd yma. Yr wyf fel Lady gwynyd dim ond crwydro, cofion goreu Nellie. Maggie yn cofio atoch i gyd.' [161]

Mae hefyd cerdyn i Nain oddi wrth ei mam a'i thad:

'Anwyl Ferch, Gobeithiwn dy fod iach a chysurus. Y pawb yma yn lled dda. Drwg gennyf dy hysbysu fod Mary Ellen Jones, Hen gapel, yn cael ei chladu Dydd Sadwrn. Fe ysg- eto o hyn i ? yn ? Dy Riení' [137]

Ceir cerdyn Nadolig hefyd oddi wrth ei mam gyda'r cyfarchiad:

'Miss Hughes os bydd y tywydd yn ffafriol y fory sef dydd Mawrth efallai y down yna. Mam' [201]

Tybed oedd mam Nain yn ceisio efelychu cynnwys cardiau eraill trwy ysgrifennu ati mewn ffordd ffurfiol?

Roedd gan Nain dri brawd: Owen John (1886-1948), ddwy flynedd yn hŷn na hi; Richard (1892-), bedair blynedd yn iau; a John J neu 'Johnie/Johnny' fel y cyfeiria'r teulu ato (1895-1956), saith mlynedd yn iau. Yn ôl y cardiau, ymddengys fod ei brodyr hefyd wedi bod yn gweithio yn Lerpwl yn ystod y cyfnod yr oedd Nain yno.

Oddi wrth Owen ym mis Awst 2014:

'22 Pecher (?) Hill, Sutton, Nr St Helens. Annwyl Chwaer, Dyma y lle rwyf fi er ddoe yn dechreu gweithio yfory sef dydd Mercher. Hwrach y dof yna wythnos ir Sul nesaf ydwyf dy frawd Owen.' [249]

Ac wedyn ym mis Chwefror 1915:

'Drwg genym nad oeddem cartref, yr wyf yn meddwl mynd i wrando TCW a Moelwyn i Cross Hall St nos Sadwrn nesaf, deuaf yna wythnos i'r Sadwrn gan mai yr wythnos yna y mae H Lauder yna. Owen' [238]

(Mae'n debyg bod Owen yn cyfeirio at Harry Lauder, y canwr a digrifwr, ac yr oedd yn boblogaidd iawn yn y theatrau y cyfnod hynny).

Ym mis Mai 1909, ceir cerdyn oddi wrth 'eich chwaer Nell' ac rwyf yn amau mai Ellen, gwraig Owen, a chwaer-yng-nghyfraith Nain, a'i hysgrifennodd:

'... mi ydwyf wedi derbyn y parcel yn saf a diolch yn fawr i chwi am dano. Mi ysgyfnaf lythur ar ol y sulgwyn. Yma mi ydan yn brysur fel pob amser ...' [117]

A cherdyn oddi wrth Richard, brawd Nain:

'Gair neu ddau in gobeithio dy fod yn iach i dweyd wrthdi fy mod wedi gael lle ac mi rwyf yn mynd iddo ddydd Sadwrn nesaf. Tryd acw heno neu nos yforu. R' [246]

Cyfeirir at Johnie mewn cardiau oddiwrth Sephorah Hughes yn 1908 a 1909:

'Mae y tywydd yn oer a gwllub iawn yma. Methu yn glir a cael mynd allan yma am fynd i Llun Ogwen dydd Sadwrn hefo Johnie. Buom yno ddoe trwy dydd. Mae yn cofio yn arw attoch...' [104]

'Mi rwyf yn mynd i de at J y prydawn yma ac i capel yno y nos. pity na fuasech yma i ddwad ynte...' [105]

'22 Maes yr Onen, Water St, Glanllechid Mi fyddwn yn eich disgwyl chwi yma dydd Sadwrn i fwrw Sul nesaf cofiwch anfon gair i ni i ddweyd pwy adeg y dowch. Mi rydum yn Llandudno heddiw...' [125]

'Meols ?Eaynton, Nr West Kirby Dear Miss Hughes, diolch i chwi am eich P card. Nid oeddwn yn gwybod eich adress gartref i anfon dim i chwi. Oes arnoch hiraeth oes mae yn debyg. Gobeithio eich bod wedi enjoyio eich Holidays yn uawn mi rwyf finau yn mynd fory cewch air genyf eto o Bethesda...' [131]

Yng nghyfrifiad 1911, roedd tri o bobl eraill yn byw gyda theulu Nain yn Garreg Wen, sef John R Hughes (Byrddiwr, 40 oed, chwarelwr) (brawd mam Nain), Thomas Williams (Byrddiwr, 36 oed, 'engine driver', a aned yn Nhrefdraeth, Môn), a Maggie Williams (Ymwelydd, 29 oed, priod).

Ar hyn o bryd, nid wyf yn sicr beth oedd y berthynas rhwng Thomas Williams a Maggie Williams a theulu Garreg Wen, ond mae'n amlwg bod perthynas clos rhyngddynt, a hefyd aelodau eraill o deulu Williams o Drefdraeth, ger Bodorgan, yn Ynys Mon. Mae gohebiaeth eang oddiwrth aelodau'r teulu, ac yr oedd Nain yn mynd ar ei gwyliau i aros gyda nhw – mae sawl cerdyn wedi eu cyfeirio at Nain yn lletya gyda Mrs Williams, Pen y Lon, Trefdraeth, Bodorgan

Efallai bod Thomas Williams yn un o gyd-weithwyr Richard, brawd Nain – a'r ddau yn 'engine drivers' yn y chwarel. Mae nifer o gardiau oddi wrth T(homas) Williams neu TW yn dymuno cyfarchion gorau, tra bod eraill yn llawn newyddion neu yn bryfoclyd:

'Llawen genyf i chwi ?gyrredd yn ddyogel, er o'r golwg, eto yn cofio. Yours TW' [101]

'Garegwen. Drwg gennyf na fuaswn yn gwybod eich bod yn ngorsaf Caernarfon nawn Llun buaswn yn falch eich gweled, roeddwn yn y gerbydres ddaeth i fewn fan oeddych yno' [139]

'Garegwen... Symud y dodrefn syd yma yn parhau, mae yr organ wedi myned hedyw. Gadewais y bobl rheiny yn iach y Pasg, ac mi obeithia innau, mae dyna eich hanes chwi, mae y lle yn rhy brin i ysgrifenu ...' [140]

O Rostyfan: 'Drwg genyf oedi cymaint heb anfon. Mae fy chwaer yn aros yn yr hen gartref am ysbaid. Ac yn y Twr Gwyn Bangor, ac nid yn y bryn y cymerod y Seremoni le. Mae cofion atoch o Fon, yr oeddwn yno y Sul. Cyfarfyddodd David Jones Penymuriau a damwain dost hedyw yn y Gors, trwy gael ei daro gan lwmp o'r wagon, nes tori ei asenau ac asgwrn ei frest fel y clywais i. Dymunaf Sulgwyn hapus i chwi, ac mae pawb yn iach yma...' [141]

O Ddulyn: '... Rwyf yn cychwyn adref hedyw, dydd Mawrth, wedi bod yma cyd ac y bu Jonah ym mol y morfil, sef rhan o dridiau a rheirnos. Mae yma le ardderchog iawn, gwerth bod yn sal ar y mor er mwyn dod yma, ddoe yr oeddym yn aros yn a man sydd yn y darlun... PS mae mam yn bethma iawn, wedi gadael fy nhad er neithiwr, yr oedd yn gwllawio ychydig, ac fe arosodd hyd hedyw gyda Lizzie, ac mae fy nhad wedi myned allan i rywle ei hunan, ac wedi colli y ffordd mae arnaf ofn, cewch fwy or hanes etto' [169]

Cyfeirir eto at Thomas Williams mewn cerdyn sydd heb ddyddiad, ac a roddwyd â llaw efallai i Nain:

'Wel mae yn dda i chwi Thomas Williams nad oeddych yn agos iawn imi pan ddaeth eich llythyr im llaw am i chwi rhoid fy hanes ynddo pa mor amal y byddwn yn y dre. Mae arnaf ofn pan caf afael ynddoch y byddwch yn ffoi drosodd i Fon heb train na stemar. Ond ar yr un pryd yr wyf yn dymuno blwyddyn newydd dda i chwi a diolch i chwi am y card. MJ' [170]

Mae'n amlwg nad oedd MJ yn hapus o gwbl gydag ymddygiad Thomas Williams!

Mae pedwar arall o deulu Trefdraeth yn ysgrifennu at Nain – Jennie, Hugh, Maggie a Dilys. Rwyn amau bod Jennie a Maggie yn chwiorydd, a Hugh yn frawd, i Thomas Williams. Mae Dilys yn ymddangos yn ifengach na'r lleill, ac cyfeirio at ei hun yn gyfneithr i Nain – efallai y bod hi'n ferch i Hugh Williams?

Mae'r cardiau cynnar yn dod oddi wrth Jennie:

'... derbyniais eich PC yn saff a da oedd gennyf glywed eich bod wedi cyraidd adref yn saff heb ddim gwllaw. Mae pawb y ffordd yma yn cofio atoch. Mi fuo John Ty Mawr yma boreu heddyw ac mi oedd yn edrych yn llon iawn. Hefyd mae ?OJ yn cofio atoch ? fi at bawb yna. ? lawen PC [llun o Yard Malltraeth] sorri if you please ...' [37]

Sawl blwyddyn yn ddiweddarach, yn 1914, mae Jennie yn ysgrifennu eto:

'c/o 'Olinda' Aug 1st 1914, Kilmore Quay, Wexford. Just a card to inform you of my safe arrival in 'Paddy's land'. Had a very good journey. Oh such a good tossing but did not spill anything as I held my head well back!! There has been quite a change in the weather and its so cold by 'y Mor'. Gofion fil Jennie.' [247]

Wedyn o'r Rhyl yn 1915:

'9.9.15 Hello Nell, I think you are a rotter not to have answered any of the many letters and cards I sent you in my mind!! I dare say you will have all the news to tell me when I get back. Probably next week. Hope you had a glorious time tra ar eich pererindod in Wales. Much love, Jennie.' [266]

Mae Jennie hefyd y chwarae ran pwysig yn y perthynas rhwng Nain a Taid – gweler isod.

Roedd Hugh Williams, fel Thomas, yn hoffi tynnu coes Nain, mae'n debyg oherwydd ei bod hi'n dweud 'bethma' yn aml:

'... Gobeithio eich bod yn o Bethma fel rwyf inau. Mae hi yn gwneud gwllaw ac eira ac ychydig o rewiau. Yn wir mae'r dywydd yn bur Bethma y dyddiau yma. Mae yr hogia yma yn bur Bethma yn sychu eu ffrogia yn godra eu sgidia. Mae Mam yn bur Bethma wrthyn hwythau cofio'n atoch oll. Ydwyf ?Chingching Hugh ?& Mary' [40]

'Anwyl frind Bethma, yr wyf yn bwriadu dyfod yma dydd Sadwrn os bydd y tywydd yn Bethma. Mae y tywydd yn Bethma yma heddyw. Gobeithio y bydd yn Bethma iawn hefo chwi yfory. Byddaf yn disgwyl eich gweld yn y dref dydd Sadwrn. Beth ydych yn feddwl or darlun ar y tu arall. Mae ym fy ngwneud i yn bethma iawn wrth feddwl mor bethma oeddwn ? hyd hynny. Derbyniwch fy atgofion gwresog.' [102]

'.... Wel mae Grace Roberts lon caeddfydd wedi marw er boreu heddyw ag yn cael ei chladdu dydd Llun hyn... Gobeithio y fod chwi yn Bethma.' [103]

'... fel y gwelwch yr wyf ar fy holydays yn yr Eisteddfod yn Llundain ag mi yr ydwyf yn bwriadu dyfod i Liverpool dydd gwener yn cyrhaedd Lime St 9 o'clock y nos ag yn aros dros y Sul. Hwyrach i mi gael eich gweled ryw dro yno. Hyn yn fyr ...' [118]

'... cyrrhaeddasom Liverpool oddeutu 10.20 ag yr ydym wedi enjoio ein hunain yn splendid. Mae Cae Caled yn methu deall pam y maent yn dysgu hen iaith mor wirion. Gobeithio eich bod wedi cyrrhaedd yn ddiogel. Efallai y byddaf yn talu ymweliad a chwi cyn y Sul afonaf eto os byddaf...' [127]

Rhwng 1911 a 1913 ceir cyfres o gardiau oddi wrth Maggie; roedd hi'n gwneud llawer iawn gyda'r teulu ac yn teithio'n aml i Rostryfan o Sir Fôn. Mae'r cerdyn gyntaf yn fwy ffurfiol na'r gweddill:

'Geufron Dairy. Miss Hughes, Dear friend. May I thank you gladly for coming here on Sat. I went to meet the trains 3 times again on Monday but you did not come, love to you all at gareg wen and kind regard to all at gapel newydd. Your sincerely MW excuse the poor card' [157]

'... Landio adraf yn saff a pop beth yn ol right, ag yn falch fy mod wedi mendio mor dda ar fy arosiad yna gyda eich ?cwmpeini difir, ag fellu i chi mau fy ? ddiolch, fy ngofion gorau at bawb yn enwedig eulod i gyd o gapel newydd, ? ? ddiolch eto am eich caredigrwydd i mi hun rwan, eich ffrind Maggie. Gofiwch fi at fy frind Richard a gobeithio eich bod yn alright. (Forget one not on the far away) [162]

'... got home alright, duck champion, looking forward to Jonny visit ...' [166]

'... got home A-1 and day out with bike at this Newborough ?news ?due to you again looking forward to visit the Concert...' [171]

'... got home alright but been very sael on the boat, hope that your father I very much better, kind regard to all at garreg wen and [the] remember the mochun ...' [172]

'... Mother hughes know what part, but about the price from 4/ to 5/-. Trusting to find you all well a gareg wen, just going to listen to John Williams Brynsiceing...' [174]

'... got home in the Pink just had an egg with my tea and enjoy it ... love to Gainwen' [175]

'... glad to tell you that I got home on the top ?, I met ?Loui Jones Glyn-cadfan at penffordd with car and I had a drive, and cross by 11 boat and got home 1.40 and just in time to join dear Bill with his ham and egg so I had my dinner ready cook, that how ladies are when they come home from holidays...' [156]

'Annwyl Richard, blwyddyn newydd dda ar i hyd i ti, gofia rhoi y Bike i Jonny i ddwad yma mi ofalaf am dano yn iawn fel na cheith gam a brisia ditha yma wedun...' [180]

'... day out at Llangefni. Enjoy myself but very lonely know no-one. We are waiting Richard on Saturday... Hoping your father is better' [184]

'... is there work at the qurry, if there is not tell Richard to come, please little news I have been looking forward for reports. Let me know by return if R is coming...' [187]

'... just had pork chops and coffee for my dinner, enjoy to the full moon. Wish you and your been here with us. Kind love to all thank for apartment...' [191]

'... you will think what has come over me not writing to you. I have been busy busy busy and fast make my fourtun so you have got to forgive me. I got lot of news to tell you when I do see you send one of the boys here. I shant come over for a long time ...' [193]

'... You will think that I had quite forget you all but you see I have not, the weather is in the perfection. I wish you been here, there is no your size in rubber at the shop. Richard shal

bring them with him when he come. Tell him to remember next Saturday. Tell him to cross with the one boat. I'll meet him on the way... Had hunger twice on the home... The Pork was champion' [?]

Cerdyn o Benbedw ym mis Hydref 2012:

'... many thanks for your letter and glad that you got home safe and that everyone were in the best of health. Hope my brother will sent me a letter soon and please remember me to all about there. Glad that my cousin has a little boy and that they are doing well...' [199]

Ar ddechrau 1913 mae Maggie yn ysgrifennu o gyfeiriad gwahanol:

'Cae Gwyn, Llanfaelog. Happy new year to you all, please write and tell me news ...' [203]

'... Propablyly come over on sat with the glasses, tell father not to go to Hermon till I come as it is gone very ? again. These are all going away again and I took the advange on them going...' [209]

Ceir cyfeiriad at Maggie mewn cerdyn gyda llawysgrifen wahanol:

'Geufron, Sir Fon. Dear, just been out on the beech with Maggie. Wish you were here (home tomorrow). Gyda chofion fil. Yr eiddoch Soch Soch. Cewch newyddion diweddaraf etto.' [194]

Wrth gwrs, cyfeiriad at Sir Fôn (moch Môn) yw 'Soch Soch'.

Mae Dilys hefyd yn ysgrifennu o Fodorgan:

'Dear Nellie, I hope that you are very well. I went to Menai Bridge. I saw the steamer you went by to Liverpool. I's well. Janes verry well. Now goodbye. Write soon. Love from all. From your little causin Dilys.' [79]

Ceir cyfres o gardiau oddi wrth gyfnitherod Nain:

'Os na chawn weled blodau Mai
O gylch ein tai Nadolig
Gwell yw na blodau ar bob llwyn
Cael cyfaill mwyn caredig

Your cousin Nell Huws' [58] [60]

Mae sawl cerdyn oddi wrth cyfneithr arall, AJ(ane?)H:

'... just air bach yn meddwl anfon o hyd ond gwell late than never. Aros di fy ngeneth i os wyt am dori fy nghoes mi gawn weld. Mae yn dywydd splendid rwan...' [107]

'sorry for being so long in answering your PC. Never mind better late than never. Mae Anty Anne yn symyd i Halsbury Rd fory...' [119]

'... Thanks very much for the receipt [recipe] of that love cake you sent me. I was delighted with it. I dare say you have tried it many times and I am going to try it before long...' [133]

'Angorfa, [Rhostryfan]. ... arrived home at last. I came on Sat. I'm sure you think I came before that time. I'll tell you that I shall be very glad to see the time for me to come there again. I think that it is rotten here, very lonely. How are you getting on there, everybody is asking for you. Are you coming home Easter... Remember me to Mr Evans' [205]

'syd hwyl erbyn hyn yr hen chwaer pam na fuaset yn galw wrth basio. Chefais mo adress Sephora wedyn i mi gael anfon PC iddi. Ddarfu chwi wneud. Mae yn synu ataf mor ddifater ydwi. Yn siwr mae arnaf ofn na chaf ddim dod i'r exhibition eto. Mae just ar ben ac mae mam yn son am ddod yn o fuan felly rhaid i mi warchod...' [225]

A cherdyn oddi wrth Alwen a Gwyneth o Bootle:

'Dear Aunty, you must excuse me for not writing to thank you sooner for the present you sent me. It is very nice indeed. Hope to see you tomorrow night. 'Dowch yn gyna...' [126]

Taid

Gwelwn y cysylltiad cyntaf â Thyn-y-gongl, Sir Fôn, pentref Taid, ym mis Hydref 1913. Cafodd cerdyn ei ysgrifennu at Nain yn 88 Camden Street, Penbedw, oddi wrth JW Evans:

'Pantysaer, Tynygongl, 4.10.13. many thanks for parcel received this morning. Would you mind having my heavy boots soled and heeled and sent on to me here – tell him to put a decent sole. You might let me have them as soon as you can. Kind regards JW Evans (For country wear)' [224]

Cafodd Taid ei fagu ym Mhant-y-saer gan ei fodryb, ond mae'n anodd gwybod beth oedd y cysylltiad rhwng Pant-y-Saer a JW Evans, sef, mae'n debyg, perchennog y tŷ lle'r oedd Nain yn gweithio ar y pryd (a brawd R Evans?) . Ai trwy'r cysylltiad hwn y cyfarfu Nain a Taid?

Ym mis Rhagfyr 1913 ceir dau gerdyn mewn llawysgrifen wahanol o Dyn-y-gongl. Y geiriau ar lun y cyntaf yw 'Somebody's sweetheart I want to be' a'r neges yw:

'Cofion caredig atoch.' [231]

Ac ar yr ail gerdyn 'Take this until we meet again', gyda'r llythrennau HRR wedi eu hysgrifennu. [232]

Fy Nhaid oedd HRR, sef Henry Richard Rowlands. Efallai bod Taid wedi gofyn i rywun arall ysgrifennu'r cerdyn cyntaf oherwydd ei fod yn rhy swil.

Ar ddechrau 1914 ysgrifennodd Jennie o Benbedw at Henry Rowlands:

'myself wish to let you know that she is the same party living in the same home a[t] the same number, the same street of the same f.wd. my friend thanks you so much for the card she didn't get. Curtain party is still alive for fear you have forgot. Your loving Jennie' [235]

Mae'n ymddangos bod Jennie yn ceisio trefnu perthynas rhyngddynt, ac yn ysgogi Taid i ateb i gardiau Nain.

Mae Taid yn ymateb ymhen wythnos gyda cerdyn a llun o wraig yn dweud wrth ei gŵr yn y gwely:

'A Welsh Speech. Y bwbach digywydd. Y lleban llwfr. Ie y pwdryn! Rwy't rhy ddiog i gysgu bron!!' [237]

Y neges yw 'cofion goreu HR Rowlands.' Mae'n rhaid bod gan Taid dipyn o hiwmor i yrru'r fath gerdyn i Nain ar y pryd.

Yn Ebrill/Mai 1914 bu cyfnewid cardiau rhwng Taid a Nain. Roedd Taid yn gweithio fel saer coed ar y llong 'Persic' oedd yn hwylio i Sydney, Awstralia:

'Dear Miss Hughes, I am writing to these few lines as promised. Hoping that you and Miss Jones is still alive and kicking. Wel I like this ship very much but I cant get any girls here. So you can see that I am a Hen Lanc. Got to be. Please send me a card to Cape Town as soon as you receive this. Oddiwrth ydwyf xxx Harry. Joiner, SS Persic, White Star Line, Cape Town, South Africa' [242]

Ac atebodd Nain o Benbedw:

'13/5/14 Accept my many thanks for card which you sent. P and myself still kicking alright. Sorry you cant get any girls, it is hard lines. Pleased to hear you like the ship so well. Tybed fydd arnoch chwi eisio mynd eto. Neb I ddueud fo ethau digri wrthum yrwan. Beth ydydh yn feddwl fo Minnie yn engaged i bachgen ? ? wel be good. Cofion cynesaf Nell' [243]

Ceir cerdyn oddi wrth Taid yn 1915:

'34 Rhiwle yn Fflint. Here with John looking for work. No luck. Cofion goreu Harry' [267]

Priododd Nain a Taid ym mis Ebrill 1916, ac fe ddaeth cyfnod dwys y cardiau post i ben.

Cardiau amrywiol

Ceir dau gerdyn at Taid yn y casgliad:

At Mr Rolands, Ty Newydd, Tynyngongl o Benygroes; 'here with father. Mother not at all well in bed yesterday. Best love ?JBD' [264]

'? Gyfarch, Garn RSO, N Wales. Dear Harry, just a line to let you know that I am home now since last Monday. Very pleased to receive your PPC.' [271]

Yn 1928, mae cerdyn at Master Cledwyn Rowlands (plentyn hynaf Nain), 5 Modred St, Dingle, Liverpool gyda llun o Gapel Hermon, a Garreg Wen ar y tu blaen:

'Hurry up Cledwyn to this beautiful place, for your holidays, it is fine here, when it is fine, with love Cein' [278]

Wedyn cerdyn yn 1932 o Sir Fon oddiwrth Cledwyn at ei fam yn Modred Street, gyda llun 'Money simply flies here! You ought to see it':

'Dear mother and family, arrived safely. Everybody in good health. ?in Pant-y-Saer. 6 in Awelon. Glorious weather. Enjoying myself fine. Cash rather short as y can see from the front. Going about with the visitors very nice people. Auntie said she would give me some cash. Cofion goreu Cledwyn' [279]

Mae hefyd dwsin o gardiau digri yn y casgliad sydd heb gael eu defnyddio [285-296].

Mae'r rhan fwyaf o'r lluniau ar y cardiau post o lefydd yn ngogledd Cymru, yn arbenning Caernarfon a'r cyffiniau, Rhosneigr, Llandudno a Malltraeth. Mae hefyd nifer o luniau o Lerpwl.

Ymysg y lluniau o ddiddordeb lleol yw:

County School Bethesda [25]
CM Chapel, Carmel [34]
Yard Malltraeth [37]
Penybont ar Ogwr [89]

Rhywle yn Waterloo/Lerpwl? [91]
Malltraeth [120]
Upper Parliament Street, Lerpwl, 1910 [130]
DJ Williams, Porth yr Aur Smithy Carnarvon, late of Bontnewydd, Prize Winner of the National Eisteddfod of London 1909' [139]
The Bungalow, Malltraeth Bay [140]
Malltraeth Bay [141]
Rhys Lewis, Cwmni Dramayddol, Aberffraw' [162]
Queen's Head, R Jones, Livery Stables, Motor garage [ger Bodorgan?] [195]
?Cob Malltraeth [202]
Water Street, Pen-y-Groes [264]
1911 Anglesey Chair Eisteddfod, Ffestiniog Choir Winners, Prize £40. Conductor Mr J Tudor Owen AACM' [271]
Hermon, Moeltryfan, from Bryngoleu [gyda Garreg Wen yn y tu blaen] [278]

Emyr Roberts, 199 Cyncoed Road, Cyncoed, Caerdydd CF23 6AJ

Awst 2015